



**Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru**

**Polisi a Gweithdrefnau  
Bwrdd Diogelu  
Rhanbarthol Gogledd  
Cymru i Gefnogi Pobl sy'n  
Hunan-Esgeuluso**

<b>Dyddiad Cadarnhau</b>	7 Tachwedd 2016
<b>Dyddiad Adolygu</b>	V.2 Tachwedd 2020

## **Cynnwys**

### **POLISI**

Cyflwyniad	4
Nod y Polisi a'r Gweithdrefnau	4
Egwyddorion Allweddol	5

### **DIFFINIADAU**

Hunan-Esgeuluso	5
Oedolyn mewn Perygl	6
Gwasanaethau Gofal Cymunedol	6
Niwed sylweddol	6
Perygl Sylweddol	6
Cwmpas y Polisi:	7

### **GWEITHDREFNAU**

Canfod a gweithio gydag unigolion sy'n hunan-esgeuluso	8
Dangosyddion yn gysylltiedig â hunan-esgeuluso	8
Ymateb Amserol	9
Canfod unigolyn sy'n hunan-esgeuluso	9
Ymgysylltu ag asiantaethau a gwasanaethau priodol eraill	9
Asiantaeth arweiniol yn cydlynu'r gwaith o gasglu gwybodaeth a phennu camau gweithredu priodol	9
Cydbwysu hawliau unigolion a dyletswyddau a chyfrifoldebau asiantaethau	10
Asiantaethau / sefydliadau eraill yn ymgysylltu â'r broses	10
Ystyried gweithdrefnau priodol i ymateb i'r perygl	11
Asesiadau cynhwysfawr gan gynnwys peryglon	11
Trefnu cyfarfod aml-asiantaeth o dan weithdrefnau hunan-esgeuluso	12
Egwyddorion ar gyfer trefnu cyfarfod aml-asiantaeth	12
Canllawiau ar gyfer cyfarfod cynllunio aml-asiantaeth	12
Bydd canlyniadau'r cyfarfod yn cynnwys: -	13
Gofynion ar gyfer cyfarfod adolygu aml-asiantaethol	13
Adolygu penderfyniad yr adolygiad asesu gallu meddyliol penodol os yw'n berthnasol	14
Cadw Cofnodion	14
Cyfeiriadau a gwybodaeth bellach	15

SIART LLIF - Atodiad 1	16
Templed Rhaglen Arfaethedig	17
Enghreifftiau Achos / Fframwaith Cyfreithiol	18

## **POLISI**

### 1.0. Cyflwyniad

1.1. Cyfeirir at y polisi hwn os credir fod oedolyn mewn perygl yn hunan-esgeuluso. Gellir ystyried bod unigolyn yn hunan-esgeuluso ac felly mewn perygl posibl o niwed lle maent:

Naill ai'n methu, neu'n amharod i ddarparu gofal digonol i'w hunain  
Ddim yn ymgysylltu â rhwydwaith gymorth  
Methu neu'n amharod i gael gofal angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion  
Yn methu gwneud penderfyniadau rhesymol, gwybodus neu ar sail gallu meddyliol oherwydd anhwylder meddwl (gan gynnwys ymddygiad celcio), salwch neu anaf i'r ymennydd  
Methu ag amddiffyn eu hunain yn ddigonol rhag ecsbloetio neu gamdriniaeth bosibl  
Gwrthod cefnogaeth hanfodol na ellir diwallu eu hanghenion iechyd a diogelwch hebddo ac nid oes gan yr unigolyn y crafter i gydnabod hyn

1.2. Gallai'r methiant i ymgysylltu ag unigolion nad ydynt yn gofalu amdanynt eu hunain (boed ganddynt y gallu meddyliol ai beidio) fod a goblygiadau difrifol o ran, ac effaith hynod niweidiol ar, iechyd a lles yr unigolyn. Gall hefyd effeithio ar deulu'r unigolyn a'r gymuned leol.

1.3. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus, fel y diffinnir yn Neddf Hawliau Dynol 1998, weithredu yn unol â gofynion cyfraith gyhoeddus. Mewn perthynas ag oedolion y credir eu bod mewn perygl oherwydd hunan-esgeuluso, nid yw cyfraith gyhoeddus yn gosod ymrwymïadau penodol ar gyrf cyhoeddus i gymryd camau penodol. Yn hytrach, disgwylir i awdurdodau weithredu o fewn y pwerau a roddwyd iddynt. Rhaid iddynt weithredu'n deg, yn gymesur, yn rhesymegol ac yn unol ag egwyddorion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014, dylai'r Ddeddf Gallu Meddyliol (2005) a dylid rhoi ystyriaeth i weithrediad y Ddeddf Iechyd Meddwl (1983) lle y bo'n briodol.

1.4. **Nod y Polisi a'r Gweithdrefnau** yw atal anaf difrifol neu hyd yn oed farwolaeth unigolion sy'n ymddangos i fod yn hunan-esgeuluso trwy sicrhau fod:

- unigolion yn cael eu grymuso cyn belled â phosibl, er mwyn deall goblygiadau eu gweithredoedd
- dealltwriaeth a chydabyddiaeth amlasiantaethol a rennir o'r materion. Mae'r llinell nesaf yn barhad o'r pwynt hwn sy'n ymwneud â gweithio gydag unigolion sy'n hunan-esgeuluso
- gwaith ac arfer aml-asiantaeth effeithiol
- pryderon yn derbyn blaenoriaeth briodol
- asiantaethau a sefydliadau yn cynnal eu dyletswyddau gofal
- Ceir ymateb cymesur i lefel y perygl i'w hunan ac i eraill.

### 1.5. Caiff hyn ei gyflawni drwy:

- hyrwyddo dull sy'n canolbwyntio ar y person sy'n cefnogi hawl yr unigolyn i gael eu trin â pharch ac urddas, ac i fod â rheolaeth dros, a chyn belled ag y bo modd, i fyw bywyd annibynnol
- cynorthwyo i gydnabod sefyllfaoedd o hunan-esgeulustod
- gwybodaeth ac ymwybyddiaeth gynyddol o'r gwahanol rymoedd a dyletswyddau a ddarperir gan ddeddfwriaeth a'u perthnasedd i'r sefyllfa benodol ac anghenion unigolion, mae hyn yn cynnwys maint a chyfyngiadau 'dyletswydd gofal' gweithwyr proffesiynol
- hyrwyddo ymlyniad i safon gofal rhesymol wrth gyflawni dyletswyddau sy'n ofynnol o fewn swydd broffesiynol, er mwyn osgoi niwed y gellir ei ragweld
- hyrwyddo dull cymesur o asesu a rheoli perygl
- Egluro cyfrifoldebau gwahanol asiantaethau ac ymarferwyr ac wrth wneud hynny, hyrwyddo tryloywder, atebolrwydd, tystiolaeth mewn prosesau penderfynu, camau gweithredu a gymerwyd a hyrwyddo lefel briodol o ymyrraeth trwy ddull aml-asiantaethol.

### **Egwyddorion Allweddol**

- **Grymuso** - Rhagdybiaeth o benderfyniadau a arweinir gan y person a chydsyniad ar sail gwybodaeth.
- **Diogelu** - Cefnogaeth a chynrychiolaeth ar gyfer y rhai sydd â'r angen mwyaf.
- **Atal** - Mae'n well gweithredu cyn i niwed ddigwydd.
- **Cymesuredd** – Ymateb Cymesur a lleiaf ymwithiol sy'n briodol i'r perygl a gyflwynir.
- **Partneriaeth** - Atebion lleol drwy asiantaethau sy'n gweithio gyda'u cymunedau. Mae gan gymunedau ran i'w chwarae wrth atal, canfod ac adrodd esgeulustod a cham-drin.
- **Atebolrwydd** - Atebolrwydd a thryloywder wrth gyflwyno diogelu.

### 1.6. **Grymuso unigolion**

Mae ffurfio perthynas gadarnhaol gydag unigolion sy'n hunan-esgeuluso yn hanfodol i gyflawni newid ar eu cyfer, a wrth sicrhau eu diogelwch a'u bod yn cael eu hamddiffyn.

Mae angen rhoi ystyriaeth yn gynnar, i benderfynu a oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol i ddeall a gwneud penderfyniadau gwybodus am eu hymatebion i bryderon asiantaethau am eu hymddygiad sy'n ymddangos eu bod yn hunan-esgeuluso.

## 2.0. **DIFFINIADAU**

2.1. Mae'r diffiniadau canlynol yn berthnasol i'r Polisi a'r Gweithdrefnau hyn:

## 2.2. **Hunan-Esgeuluso**

Does dim diffiniad gweithredol o hunan-esgeuluso sydd wedi'i dderbyn yn genedlaethol neu'n rhyngwladol oherwydd deinameg a chymhlethdod hunan-esgeuluso.

Diffiniad Gibbons et al (2006) ohono oedd "yr anallu (yn fwriadol neu'n anfwriadol) i gynnal safon o hunanofal sy'n dderbyniol yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol gyda goblygiadau difrifol posibl i iechyd a lles y rhai sy'n hunan-esgeuluso ac efallai i'w cymuned hefyd".

## 2.3. **Oedolyn mewn perygl:**

2.4. Mae dyletswyddau diogelu'n berthnasol i oedolyn sydd:

- Angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac;
- Yn profi, neu mewn perygl o, gam-drin neu esgeulustod; a
- O ganlyniad i'r anghenion gofal a chymorth hynny, yn methu ag amddiffyn eu hunain rhag naill ai'r perygl o, neu'r profiad o gam-drin neu esgeulustod

Mae hunan-esgeuluso wedi'i gynnwys yn y diffiniadau diogelu yn y canllawiau statudol uchod ac "yn cwmpasu ystod eang o ymddygiad, esgeuluso gofalu am eich hylendid personol, eich iechyd neu amgylchedd personol ac yn cynnwys ymddygiad fel celcio".

## 2.5. **Gwasanaethau Cymorth a Gofal i Oedolion:**

Yn cynnwys pob gwasanaeth cymorth a gofal a ddarperir mewn unrhyw leoliad neu gyd-destun boed yn cael eu hariannu gan asiantaeth statudol neu gan yr unigolyn ei hun. Mae hefyd yn cynnwys yr angen am ofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio).

## 2.6. **Niwed Arwyddocaol:**

- Nid yw'n gamdriniaeth yn unig (gan gynnwys cam-drin rhywiol a ffurfiau ar gamdriniaeth nad ydynt yn gorfforol), ond hefyd amharu ar, neu ddirywiad y gellir ei osgoi mewn iechyd corfforol neu feddyliol, ac amhariad ar ddatblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol
- Mae bygythiad i fywyd yr unigolyn, neu gallai fod o dan fygythiad
- Gallai fod effaith ddifrifol, gronig a / neu barhaus ar iechyd a lles corfforol / emosiynol / seicolegol unigolyn.

## 2.7. Perygl Arwyddocaol

Lle mae dangosyddion fod newid yn debygol o ddigwydd i lefelau perygl yn y tymor byr i ganolig, dylid cymryd neu gynllunio camau priodol. Gallai dangosyddion o berygl sylweddol gynnwys:

- Hanes o ddigwyddiadau argyfwng gyda chanlyniadau sy'n bygwth bywyd
- Perygl uchel i eraill
- Derbyn lefel uchel o atgyfeiriadau amlasiantaethol
- Perygl o drais domestig
- Gallu sy'n amrywio, hanes o bryderon diogelu / cam-fanteisio
- Caledi ariannol, perygl i denantiaeth / diogelwch y cartref
- Peryglon tân tebygol
- Materion trefn gyhoeddus; ymddygiad gwrthgymdeithasol / troseddau casineb / troseddau sy'n gysylltiedig â mân droseddau
- Cyflyrau iechyd anrhagweladwy / cronig
- Camddefnyddio sylweddau sylweddol, hunan-niweidio
- Rhwydwaith yn codi ffactorau perygl uchel
- Amgylchedd yn codi peryglon uchel
- Hanes ffordd o fyw anhrefnus; problemau camddefnyddio sylweddau
- Nid oes gan yr unigolyn lawer o ddewis neu ddim dewis na rheolaeth dros agweddau hanfodol ar eu bywyd, yr amgylchedd neu faterion ariannol.

## 2.8. Nid yw cwmpas y polisi hwn yn cynnwys:

- Lle mae pryder bod unrhyw asiantaeth berthnasol wedi cau eu cyfranogiad yn rhy fuan, neu os nad yn ymgysylltu'n rhagweithiol mewn cynlluniau amlasiantaethol i fynd i'r afael â'r pryderon a'r peryglon i'r unigolyn, bydd hyn yn cael eu uwch-gyfeirio drwy'r prosesau perthnasol ar gyfer yr asiantaeth neu
- Materion perygl sy'n gysylltiedig â hunan-niwed bwriadol. A alla olygu fod angen asesiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl

## 2.9. Fodd bynnag, byddai'n briodol i fynd i'r afael â'r pryderon drwy gyflwyno rhybudd amddiffyn oedolion drwy'r awdurdod lleol perthnasol oherwydd:

- Ymddengys bod yr hunan-niweidio wedi digwydd oherwydd gweithred(oedd) o esgeulustod neu ddiffyg gweithredu gan unigolyn neu wasanaeth arall
- Ymddengys bod methiant gan weithwyr proffesiynol neu sefydliadau a reoleiddir i weithredu o fewn eu codau ymddygiad proffesiynol
- Gweithredoedd neu fethiannau gan drydydd parti i ddarparu gofal neu gymorth angenrheidiol lle mae dyletswydd arnynt naill ai fel gweithiwr gofal, gwirfoddolwr neu aelod o'r teulu i ddarparu gofal / cymorth o'r fath.

- 2.10. Os bydd pryderon diogelu oedolion yn cael eu hadrodd i'r Awdurdod Lleol, byddai angen iddynt benderfynu a yw'r meini prawf yn cael eu bodloni er mwyn i Adran 126 (2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 i gael eu gwneud naill ai gan yr awdurdod lleol neu efallai y bydd angen i eraill wneud ymholiadau a bwydo'r canlyniadau yn ôl er mwyn galluogi cytundeb ar gamau gweithredu pellach o'r fath.

### 3.0. GWEITHDREFNAU

#### 3.1. **Canfod a gweithio gydag unigolion sy'n hunan-esgeuluso**

#### 3.2. **Asesiad (gan yr asiantaeth gyntaf i nodi'r pryderon)**

Bydd yn bwysig cynnal asesiad o anghenion a pheryglon sy'n briodol ac yn gymesur i'ch swydd. Bydd hyn yn cael ei lywio gan farn gofalwyr a / neu berthnasau yn ogystal â barn yr unigolion eu hunain, lle bynnag y bo modd a bo hynny'n ymarferol.

Lle mae pryderon nad oes gan yr unigolyn y gallu meddyliol neu ei bod yn ymddangos nad oes ganddynt y gallu meddyliol i ddeall y peryglon sy'n gysylltiedig â'u hymddygiad, rhaid ystyried asesiad gallu meddyliol mewn perthynas â'u gallu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth ynghylch y peryglon a nodwyd.

#### 3.3. **Dangosyddion yn gysylltiedig â hunan-esgeuluso**

- Byw mewn amgylchiadau budr, gyda ferminau dan rai amgylchiadau, fel byw gyda thooled wedi'i flocio'n llwyr gydag ysgarthion
- Esgeuluso gwaith cynnal a chadw'r cartref, gan felly achosi peryglon o fewn ac o gwmpas yr eiddo
- Cyfleu ymddygiad / ffordd o fyw ecsentrig
- Celcio obsesiynol
- Diet a maetheg wael. Er enghraifft, tystiolaeth o ychydig neu ddim bwyd ffres yn yr oergell, neu fod yr hyn sydd yno wedi llwydo
- Gwrthod meddyginiaeth ar bresgripsiwn a / neu gymorth gofal iechyd arall yn y gymuned
- Gwrthod caniatáu mynediad i staff iechyd a / neu ofal cymdeithasol mewn perthynas â hylendid a gofal personol
- Gwrthod caniatáu mynediad i sefydliadau eraill sydd â chysylltiad â'r eiddo, er enghraifft, staff sy'n gweithio i gwmnïau gwasanaethau (dŵr, nwy, trydan)
- Achosion rheolaidd o ymddygiad gwrthgymdeithasol - naill ai fel dioddefwr neu droseddwr
- Yn amharod i fynd i apwyntiadau allanol gyda staff proffesiynol boed yn sefydliadau gofal cymdeithasol, iechyd neu sefydliadau eraill (fel tai) Hylendid personol gwael, doluriau / briwiau gwael, ewinedd traed hir;
- Ynysu
- Methiant i gymryd meddyginiaeth.

Nid yw'r rhestr hon yn un gyflawn.



3.4. Dylid ystyried cynnwys Eiriolydd Annibynnol neu Eiriolydd Gallu Meddyliol Annibynnol (IMCA) dan amgylchiadau priodol. Lle mae'r unigolyn yn gwrthod cymryd rhan neu ymgysylltu ag asiantaethau neu ddarparu mynediad, efallai fod gwybodaeth a geir o amryw o ffynonellau eraill 'yn allweddol' i sicrhau mynediad neu i bennu meysydd / lefelau perygl.

3.5. **Mae ymateb cychwynnol prydlon yn hanfodol.**

Bydd Asiantaethau'n cofnodi'n ffurfiol (yn ddelfrydol o fewn 24 awr) bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu gweithredu.

3.6. **Canfod unigolyn sy'n hunan-esgeuluso**

Nodir fod unigolyn yn hunan-esgeuluso ac ymddengys ei fod yn achosi perygl sylweddol i'w hun ac eraill. Nid ydynt yn ymgysylltu â chymorth

Gall nifer o sefydliadau fod yn ymwybodol o'r unigolyn ac yn ystyried bod y perygl wedi cyrraedd pwynt arwyddocaol

3.7. **Ymgysylltu ag Asiantaethau Eraill**

3.8. Dylai symbylydd y pryderon:

Cymryd unrhyw gamau priodol i liniaru unrhyw berygl uniongyrchol cyn belled a bo modd.

Trefnu telegynhadledd neu drafodaeth gychwynnol gydag asiantaethau priodol eraill i gytuno pwy fydd yn arwain ar gydlynu'r wybodaeth a gesglir, mae hyn yn arbennig o berthnasol os yw'r pryderon yn cael eu codi gan asiantaethau fel Wardeniaid Cymunedol neu lechyd yr Amgylchedd.

Os yw symbylydd y pryder yn ystyried bod yr unigolyn yn debygol o fod angen gofal a / neu gymorth bydd angen ymgynghori â'r awdurdod lleol gan y bydd angen iddynt benderfynu ar sail y wybodaeth sydd ar gael os oes angen ymholiad dan adran 126 (2) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014. Os yw hyn yn wir, mae'r awdurdod lleol yn debygol o fod yn asiantaeth arweiniol.

3.9. **Yr asiantaeth arweiniol sy'n cydlynu'r gwaith o gasglu gwybodaeth a phennu camau gweithredu priodol i fynd i'r afael â'r pryderon**

Dylid rhannu gwybodaeth o dan y gweithdrefnau hyn yn unol â'r egwyddor o rannu gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y canllawiau WASPI. Bydd gwybodaeth a gesglir ar y cam hwn yn llywio:

Penderfyniadau a wneir ynghylch yr angen i rannu gwybodaeth amlasiantaethol ymhellach;

Cwblhau'r Asesiad Perygl cychwynnol, a sicrhau bod unrhyw **gamau brys** yn cael eu cyflawni. e.e. Cysylltu â'r gwasanaethau brys, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, cwblhau gwiriadau diogelwch a sicrhau ymyrraeth feddygol brys lle bo angen

Lle mae pryderon bod gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus oherwydd anhwylder meddyliol neu salwch, rhaid ystyried cynnal Asesiad Gallu Meddyliol mewn perthynas ag unrhyw benderfyniadau efallai y bydd angen iddynt wneud ynghylch eu diogelwch neu ddiogelwch eraill .

Nod casglu gwybodaeth fydd adeiladu dealltwriaeth o:

- unrhyw ymgysylltiad llwyddiannus blaenorol gyda'r unigolyn
- Dulliau a oedd yn ymddangos eu bod yn datgysylltu'r unigolyn
- Golwg ar ddymuniadau a theimladau'r unigolyn
- barn unrhyw un sydd wedi neu sydd wedi bod mewn cysylltiad â'r unigolyn gan gynnwys perthnasau a chymdogion

Wrth weithio gydag unigolion a allai fod yn amharod i gyfathrebu, mae'r perygl o gam-gyfathrebu rhwng asiantaethau yn fwy nag arfer. Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol ar gael i'r rhai sy'n ymgymryd ag unrhyw asesiadau

Defnyddio gwybodaeth sydd ar gael fel uchod o unrhyw ymgysylltiad llwyddiannus blaenorol â'r unigolyn i hwyluso cyfathrebu uniongyrchol gyda'r unigolyn os oes modd. Dylai hyn sicrhau y bydd yr asesiad yn llywio unrhyw weithredoedd i'w cymryd ac yn cynnwys uwchlaw dymuniadau a theimladau'r unigolyn.

### 3.10. **Cydbwysu hawliau unigolion a dyletswyddau a chyfrifoldebau asiantaethau**

Mae hawl gan bob unigolyn i gymryd peryglon ac i fyw eu bywydau fel y mynnant. Bydd yr hawliau hyn, yn cynnwys yr hawl i breifatrwydd, yn cael eu parchu a'u pwysu a'u mesur wrth ystyried dyletswyddau a chyfrifoldebau tuag atynt. Ni fyddant yn cael eu diystyru:

- Ar wahân i ble mae'n amlwg y byddai'r canlyniad yn hynod niweidiol i'w iechyd a'u lles nhw, neu unrhyw un arall, a lle mae'n gyfreithlon i wneud hynny;

### 3.11. Asiantaethau / sefydliadau eraill yn ymgysylltu â'r broses

Mae'n debygol na fydd yr unigolion hyn yn bodloni'n glir y meini prawf ar gyfer unrhyw un neu nifer o asiantaethau neu sefydliadau. Efallai mai cyfyngedig oedd llwyddiant unrhyw ymgais flaenorol o geisio ymgysylltu, neu na chafwyd unrhyw lwyddiant o gwbl. Mae'r ffactorau hyn yn cynyddu'r perygl a dylid eu nodi fel dangosyddion perygl a fydd yn ysgogi camau gweithredu o dan y gweithdrefnau hunan-esgeuluso hyn.

Cytunwyd fod gwaith hunan-esgeuluso yn flaenoriaeth aml-asiantaethol ac mae disgwyliad y bydd:

- Pob asiantaeth bartner yn ymgysylltu pan ofynnir am hynny gan yr asiantaeth arweiniol fel y bo'n briodol neu'n ofynnol; ac
- Pan fo asiantaeth yn un arweiniol, maent yn cymryd cyfrifoldeb am gydlynu gwaith partneriaeth aml-asiantaeth.

### 3.12. Ystyried gweithdrefn briodol i ymateb i'r perygl

Efallai y bydd achlysuron pan fydd yn briodol dilyn gweithdrefn arall i gydlynu pob un neu rai agweddau ar y materion a nodwyd.

Lle mae'n ymddangos bod gallu'r unigolyn i wneud penderfyniadau gwybodus / perthnasol yn cael ei gwestiynu, rhaid dilyn egwyddorion y **Ddeddf Gallu Meddyliol**. Pan mae'n ymddangos fod posibilrwydd fod person yn sâl yn feddyliol, rhaid dilyn prosesau'r **Ddeddf Iechyd Meddwl**.

Os datblygodd yr hunan-esgeulustod sy'n amlygu ei hun mewn ymateb i gam-drin gan eraill dylid defnyddio'r polisi, gweithdrefnau a'r canllawiau amddiffyn oedolion. Os oes unrhyw bryderon amddiffyn plant neu blentyn mewn angen, rhaid cyfeirio'r rhain at y gwasanaethau plant fel mater brys.

Os ystyrir ei bod yn fwy priodol i ddefnyddio prosesau eraill i gefnogi'r unigolyn, gellid rhoi diwedd ar y gweithdrefnau hunan-esgeuluso ar y pwynt hwn a throsglwyddo pob un o'r materion i'r ymarferydd / gwasanaeth sy'n cymryd cyfrifoldeb am fynd i'r afael â'r hunan-esgeuluso yn ogystal â'r pryderon eraill . Rhaid cael dogfennaeth glir fel tystiolaeth fod cyfrifoldebau wedi'u trosglwyddo os yw hyn yn wir.

Yn dibynnu ar lefel a natur y peryglon a nodwyd, gellid rhoi ystyriaeth i waith asiantaethau ac ymarferwyr eraill sy'n cael eu gwneud ar y cyd â'r gweithdrefnau hunan-esgeuluso. Rhaid cael cytundeb clir ynghylch pwy yw'r arweinydd ar gyfer cydlynu'r holl waith ac am ddod ag asiantaethau / gwasanaethau at ei gilydd gyda'r unigolyn neu ei eiriolwr i gytuno ar gynllun gweithredu. .

### 3.13. Asesiad cynhwysfawr gan gynnwys peryglon i'w hystyried yn y cyfarfod amlasiantaeth:

Dylid cwblhau asesiad gan ddefnyddio polisi a gweithdrefnau'r asiantaeth arweiniol gyda chyfraniadau gan asiantaethau a gwasanaethau eraill fel y bo'n briodol i ffurfio un asesiad cynhwysfawr o'r unigolyn ac o'r peryglon a nodwyd.

Efallai y bydd angen mewnbwn arbenigol i egluro rhai agweddau ar weithrediad a perygl yr unigolyn. Bydd hyn yn cynnwys asesiad iechyd meddwl neu asesiad gallu meddyliol lle mae'n ymddangos bod hyn yn briodol.

Bydd elfennau allweddol o'r asesiad cynhwysfawr o esgeulustod yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- a. Hanes cymdeithasol a meddygol manwl;
- b. Gweithgareddau hanfodol bywyd bob dydd (ee gallu defnyddio'r ffôn, siopa, paratoi bwyd, cadw tŷ, golchi dillad, dull cludiant, cyfrifoldeb am eu meddyginiaeth eu hunain, y gallu i ymdrin â materion ariannol);
- c. Asesiad Amgylcheddol; gan gynnwys unrhyw wybodaeth gan gymdogion
- d. Disgrifiad o hunan-esgeuluso;
- e. Persbectif hanesyddol o'r sefyllfa;
- f. Naratif yr unigolyn ei hun ar eu sefyllfa a'u hanghenion;
- g. Parodrwydd yr unigolyn i dderbyn cymorth; a
- h. Barn aelodau'r teulu, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl eraill yn rhwydwaith yr unigolyn.

3.14. **Trefnwyd cyfarfod aml-asiantaeth o dan weithdrefnau hunan-esgeuluso**

Lle nodwyd fod posibilrwydd y gallai oedolyn fod yn hunan-esgeuluso, yn gwrthod cymorth, a drwy wneud hynny'n rhoi eu hunain neu eraill mewn perygl o niwed sylweddol Argymhellir bod cyfarfod cynllunio aml-asiantaeth yn cael ei drefnu. Bydd hyn yn galluogi rhannu gwybodaeth yn effeithiol i ystyried perygl(on) peidio ag ymyrryd a galluogi cynllun gweithredu i gael ei gytuno arno. Argymhellir y bydd cyfarfod cynllunio aml-asiantaeth, gydag agenda clir ar gyfer trafodaeth yn cael ei drefnu o fewn pum diwrnod gwaith i'r pryderon cychwynnol gael eu codi

3.15. **Rhesymau dros drefnu cyfarfod:**

Nid yw'r gwaith wedi lleihau lefel y perygl ac mae perygl sylweddol yn parhau

Nid yw wedi bod yn bosibl cydlynu dull aml-asiantaeth trwy'r gwaith a wnaed hyd yma

Mae lefel y perygl yn golygu bod angen rhannu gwybodaeth yn ffurfiol i gytuno ar, a chofnodi cynllun gweithredu amlasiantaeth

Bydd y terfynau amser ar gyfer cyflawni'r camau a nodwyd yn y cyfarfod amlasiantaeth yn cael eu nodi o fewn cofnod ysgrifenedig ffurfiol y cyfarfod. Bydd hyn yn cynnwys terfynau amser ar gyfer cwblhau unrhyw asesiadau sydd heb eu gwneud neu rai mwy arbenigol.

Bydd hefyd angen gosod dyddiad ar gyfer cyfarfod adolygu fel y gellir ystyried unrhyw asesiadau arbenigol pellach a chytuno ar unrhyw gamau diwygiedig.

3.16. **Egwyddorion ar gyfer trefnu cyfarfod amlasiantaeth:**

**Egwyddorion trefnu cyfarfod amlasiantaeth yw ystyried:**

- Barn a dymuniadau'r unigolyn cyn belled ag y gwyddom;
- Gwybodaeth, gweithredoedd a pheryglon cyfredol;
- Y gweithiwr proffesiynol / asiantaeth arweiniol barhaus a fydd yn cydlynu'r gwaith hwn ac yn cydlynu gwybodaeth a rennir yn unol ag egwyddorion rhannu gwybodaeth a geir ym mhrotocolau a chanllawiau'r polisi diogelu oedolion amlasiantaeth ar gyfer Gogledd Cymru Gwerthuso gwybodaeth berthnasol i lywio'r cynllun gweithredu mwyaf effeithiol.

### 3.17. Canllawiau ar gyfer cyfarfod cynllunio aml-asiantaeth:

Yr asiantaeth arweiniol sy'n gyfrifol am alw'r cyfarfod hwn a gwneud y trefniadau hynny fel man cyfarfod a chymryd cofnodion;

Bydd yr asiantaeth arweiniol yn gwneud trefniadau i gynnwys yr unigolyn dan sylw. Lle bynnag y bo modd, dylai'r unigolyn gael ei gynnwys yn llawn, a mynd i'r cyfarfod. Rhaid gwneud pob ymdrech i ymgysylltu â'r unigolyn ac i'w galluogi i gyfleu eu barn yn y cyfarfod;

Os nad yw'r unigolyn yn dymuno mynd i'r cyfarfod, bydd angen i gynrychiolwyr ystyried sut mae eu barn a'u dymuniadau'n cael eu cyflwyno yn y cyfarfod e.e. trwy benodi eiriolwr ffurfiol neu wahodd eiriolwr anffurfiol;

Argymhellir bod y cyfarfod yn cael ei gadeirio a'i gofnodi'n ffurfiol. Dylai cyfranogwyr o bob asiantaeth a nodwyd fynd i'r cyfarfod gyda dealltwriaeth o'u cyfrifoldebau i rannu gwybodaeth berthnasol er mwyn dod i gytundeb ar y ffordd ymlaen;

Mae'n bwysig sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu y cytunir arnynt yn cydymffurfio â deddfwriaeth a dyletswyddau statudol. Efallai y bydd angen ystyried cael cynrychiolaeth gyfreithiol yn y cyfarfod er mwyn trafod opsiynau cyfreithiol perthnasol;

Dylid datblygu cynllun gweithredu SMART a'i gytuno gan aelodau'r cyfarfod. Os ceir anghytundeb ynghylch unrhyw agwedd ar y cynllun, dylid datrys y rhain drwy ymgynghori ag uwch reolwr o'r asiantaeth arweiniol;

Bydd Cadeirydd y cyfarfod aml-asiantaeth yn sicrhau y ceir eglurder yn y terfynau amser ar gyfer gweithredu cynlluniau wrth gefn fel, lle mae rhwymedi cyfreithiol a phroffesiynol i wneud hynny, yr ymatebir i perygl ac y caiff niwed ei leihau / atal.

### **Bydd canlyniadau'r cyfarfod yn cynnwys y canlynol:**

- Cynllun gweithredu SMART - gan gynnwys cynlluniau wrth gefn a phroses uwch-gyfeirio;
- Cytuno ar drefniadau monitro ac adolygu a phwy fydd yn gwneud hyn;
- Cytuno ar gynllun i gyfathrebu â'r unigolyn / pobl eraill allweddol sy'n gysylltiedig
- Cytundeb ynghylch pa asiantaeth fydd yn arwain yn yr achos a chytuno ar unrhyw bwyntiau sbarduno a fydd yn penderfynu ar yr angen am gyfarfod adolygu amlasiantaeth brys.

Dylid anfon cyfathrebiad ysgrifenedig priodol ymlaen i'r unigolyn dan sylw, dim ots beth yw lefel eu cyfranogiad hyd yma. Bydd y cyfathrebu hwn yn cynnwys amlinellu pa gymorth sy'n cael ei gynnig a / neu ar gael a darparu eglurhad am hyn. Os gwrthodir y cymorth hwn, mae'n bwysig bod yr unigolyn yn ymwybodol, os byddant yn newid eu meddwl am yr angen am gymorth, bydd cysylltu ag asiantaeth berthnasol ar unrhyw adeg yn y dyfodol yn arwain at ailasesiad. Rhoddir ystyriaeth ofalus i'r modd y bydd y cofnod ysgrifenedig hwn yn cael ei roi, ac yn cael ei esbonio lle bo modd, i'r unigolyn.

### **3.20. Gofynion ar gyfer cyfarfod Adolygu Aml-asiantaeth**

Mae'r cyfarfod adolygu'n gyfle i edrych eto ar yr asesiadau gwreiddiol, yn enwedig mewn perthynas â gweithrediad presennol yr unigolyn, asesiadau perygl a chyfraddau hysbys neu bosibl o welliant neu ddirywiad yn:

- Yr unigolyn,
- Eu hamgylchedd, neu
- Yng ngallu eu system gymorth.

### **3.21. Bydd asesiadau gallu meddyliol i benderfyniad penodol yn cael eu hadolygu ac yn cael eu rhannu yn y cyfarfod. Bydd angen i'r drafodaeth ganolbwyntio ar gynllunio wrth gefn yn seiliedig ar y perygl(on) a nodir.**

Efallai y bydd yn penderfynu parhau i gynnig cyfleoedd i'r unigolyn dderbyn cefnogaeth a monitro'r sefyllfa. Rhaid gosod terfynau amser clir ar gyfer darparu cyfleoedd ac am fonitro a phwy fydd yn cymryd rhan yn hyn.

Lle bo modd, bydd dangosyddion y gallai peryglon fod yn cynyddu yn cael eu nodi a fydd yn sbarduno ymatebion a gytunwyd arnynt gan asiantaethau, sefydliadau neu bobl sy'n ymwneud mewn ffordd ragweithiol ac amserol.

Bydd dyddiad cyfarfod pellach yn cael ei osod ym mhob adolygiad aml-asiantaeth hyd nes y ceir cytundeb fod y sefyllfa wedi dod yn sefydlog a bod y perygl o niwed wedi lleihau i lefel dderbyniol y cytunwyd arnynt.

Lle nad yw asiantaethau'n gallu gweithredu cefnogaeth na lleihau'r perygl yn sylweddol, bydd y rhesymau am hyn yn cael eu cofnodi'n llawn a'u cadw ar ffeil yr unigolyn, gyda chofnod llawn o'r ymdrechion a'r camau a gymerwyd.

Lle mae'r peryglon yn **fawr iawn** dylid gofyn am gyngor cyfreithiol ac mae'n rhaid ystyried pob opsiwn cyfreithiol sydd ar gael, gan gynnwys cais i'r Llys Gwarchod lle mae pryderon ynghylch gallu meddyliol neu i'r Uchel Lys lle credir bod gan yr unigolyn allu meddyliol.

### 3.22. Cadw Cofnodion

Bydd y cofnod achos yn cynnwys cofnod yn rhoi crynodeb o'r ymdrechion a'r camau a gymerwyd gan yr holl asiantaethau eraill dan sylw. Bydd hefyd angen i asiantaethau unigol gadw eu cofnodion eu hunain o'u cyfranogiad penodol.


Bydd cofnodion manwl yn cael eu cynnal sy'n dangos ymlyniad i'r gweithdrefnau hyn, a pholisi a gweithdrefnau cofnodi achosion y cytunwyd arnynt yn lleol.

### **Cyfeiriadau a gwybodaeth bellach**

*Gibbons et al (2006) Self-Neglect: A proposed new NANDA diagnosis, International Journal of Nursing Terminologies and Classifications, 17 (1), tud. 10-18.*

SCIE (2011) Self-neglect and adult safeguarding: findings from research (Adroddiad 46) ar gael o [www.scie.org.uk](http://www.scie.org.uk)

"Sussex Multi-Agency Procedures to Support People who Self Neglect" (Gorffennaf 2013) ar gael o [www.westsussex.gov.uk](http://www.westsussex.gov.uk)





## **Templed Rhaglen Arfaethedig**

1. Manylion yr Oedolyn mewn perygl.
2. Cadarnhau capasiti.
3. Asesu'r peryglon, cytuno ar ddifrifoldeb y peryglon.
4. Trafodaeth ynghylch cefnogaeth a strategaethau ymarferol i leihau'r peryglon.
5. Cytuno ar gamau i reoli peryglon a nodi sbardunau ar gyfer adolygu.
6. Trafod pwy sydd yn y sefyllfa orau i siarad â'r oedolyn mewn perygl, eu grymuso i wneud penderfyniadau a gweithredu.
7. Cytuno ar strategaeth i fonitro'r peryglon.
8. Adolygiad - cytuno ar amserlen ar gyfer adolygu.

## **Efallai yr hoffech chi ymgynghori gyda neu wahodd y canlynol i gyfarfod cynllunio / strategaeth:**

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Meddyg Teulu

Cydweithwyr Iechyd

Gwasanaethau Cymdeithasol

Nyrsys Ardal

Anabledd Dysgu

Iechyd yr Amgylchedd

Darparwyr Tai

Wardeniaid Cymunedol

Asiantaethau gofal

Diogelwch Cymunedol

Age Concern

Sector Cymunedol/Gwirfoddol

Rhwydweithiau Cymunedol

Cyfreithiol

# Enghreifftiau achos:

## Enghraifft 1

Roedd dau frawd gydag anableddau dysgu ysgafn yn byw yn eu cartref teuluol, lle'r oeddynt wedi aros yn dilyn marwolaeth eu rhieni beth amser cyn hynny. Roedd symiau mawr o sbwriel wedi cronni yn yr ardd a'r tu mewn i'r tŷ, ac roedd glendid a hunan-esgeuluso hefyd yn bryder. Roedden nhw wedi cael eu targedu gan dwyllwyr, gan arwain at ymchwiliad troseddol ac erlyn y sawl a oedd yn gyfrifol, ond roedd y brodyr wedi gwrthod gwasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion wedi hynny ac roedd eu hachos wedi ei gau'n flaenorol.

Derbyniodd yr awdurdod lleol bryder bod y brodyr mewn perygl o hunan-esgeuluso. Nid oedd yn hysbys os oedd achos rhesymol dros amau fod y brodyr yn gallu amddiffyn eu hunain rhag hunan-esgeuluso neu'r perygl ohono, ac felly ni sbardunwyd ymholiad A126. Dechreuodd yr asesiad anghenion, ac wrth i hwn fynd rhagddo, daeth yn amlwg - gyda'r lefel gywir o gefnogaeth er mwyn annog y brodyr i dderbyn gwasanaethau - eu bod yn gallu a bod ganddynt y gallu meddyliol i gymryd camau i amddiffyn eu hunain rhag y perygl o hunan-esgeuluso.

Aethant ati i ddatblygu perthynas dda gyda'u gweithiwr cymdeithasol, ac wrth i bryderon am eu hiechyd a'u lles barhau, penderfynwyd y byddai'r gweithiwr cymdeithasol yn cadw cysylltiad, yn galw heibio bob ychydig o wythnosau i weld sut oeddent, ac yn cynnig unrhyw gymorth oedd ei angen, ar eu telerau nhw. Ar ôl bron i flwyddyn, drwy fagu ymddiriedaeth a dealltwriaeth yn raddol, gofynnodd y brodyr i gael eu hystyried ar gyfer tai â chymorth; a gyda chymorth y gweithiwr cymdeithasol gwnaethant wella cyflwr eu tŷ yn ddigonol i'w werthu, a symud i amgylchedd byw lle gellid darparu cymorth ymarferol.

## Enghraifft 2

Mae Ms S yn ddynes 63 mlwydd oed gydag anabledd dysgu ysgafn. Mae hi bob amser wedi byw gydag ac wedi derbyn gofal gan ei rhieni nes i'r ddau ohonynt farw yn ystod y 5 mlynedd diwethaf. Mae hi bellach yn byw ar ei phen ei hun yn hen gartref ei rhieni. Mae'r tŷ mewn cyflwr gwael heb ffenestri yng nghefn y tŷ. Mae llawr y gegin bob amser yn wlyb oherwydd y glaw. Mae'r tŷ yn fudr. Mae'r tŷ'n anhrefnus ac yn llawn eitemau sy'n ei gwneud yn anodd cerdded drwy'r tŷ. Ms S yn anymataliol, ei choesau yn llawn doluriau ac yn wylofain. Yn ddiweddar, gwrthododd Ms S adael i'w chwaer ddod i mewn i'w thŷ, ond mae'n dal i ganiatáu ei meddyg teulu i ddod i mewn i'w thŷ.

Derbyniodd yr awdurdod lleol bryderon am berygl o niwed drwy hunan-esgeuluso. Mae'r meddyg teulu'n teimlo fod marc cwestiwn ynghylch gallu Mr S i ddeall peryglon.

Penderfynodd yr Awdurdod Lleol bod achos rhesymol dros amau fod Mrs S yn bodloni'r meini prawf ar gyfer ymchwiliad A126 o dan y SSWBA gan fod achos rhesymol i amau bod anghenion gofal a chymorth ar Mrs S, ei bod mewn perygl o hunan-esgeuluso, ac mae achos rhesymol i amau nad yw Ms S yn gallu amddiffyn ei hun rhag hunan-esgeuluso na'r perygl o hynny.

Yr ymateb a gytunwyd arno oedd i'r Meddyg Teulu- fel y person sy'n adnabod Ms S orau - i weithio gyda Ms S i ddeall beth oedd ei barn a'u dymuniadau o ran ei hanghenion gofal a chymorth ac i'w hannog i dderbyn mewnbwn ac asesiad gan yr Awdurdod Lleol, ac i'r Awdurdod Lleol ymgymryd ag asesiad o anghenion.

### **Enghraifft 3**

Mae Ms T yn byw ar ei phen ei hun. Mae hi wedi cael diagnosis bod ganddi anhwylder cymhellol difrifol sy'n amlygu ei hun yn ei chelcio. Mae Ms T yn profi lefelau uchel o bryder sy'n effeithio ar ei gallu i roi sylw i ofal personol a bwyta. Mae bagiau heb eu hagor o fwyd wedi'i goginio y mae Ms T yn dweud ei bod wedi anghofio ei fwyta. Mae Ms T yn dweud ei bod yn ymwybodol o'r perygl i'w hiechyd a'r amgylchedd, ac mae wedi sylwi ar faw fermin yn y gegin. Mae hi'n dweud nad yw'n glanhau ei chartref gan fod symud pethau a thaflu pethau yn achosi pryder iddi.

Mae Ms T yn casglu ei holl lythyrau, ond nid yw'n eu hagor. Mae Ms T ond yn mynd i fannau cyfarwydd lle mae wynebau cyfarwydd.

Derbyniodd yr awdurdod lleol bryderon am y perygl o niwed drwy hunan-esgeuluso. Ar ôl gwirio gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl, canfuwyd bod Ms T wedi gweld seiciatrydd yn ddiweddar. Cysylltwyd â'r seiciatrydd ac mae'n bendant yn ei farn bod gan Ms T allu meddyliol llawn i ddeall y peryglon hyn, sut mae ei anhwylder meddwl yn effeithio ar y peryglon hyn, ac i wneud penderfyniadau am ei anghenion gofal a chymorth.

Nid oes unrhyw reswm i amau nad yw Ms T yn gallu amddiffyn ei hun rhag hunan-esgeuluso, ond mae'n dal i fod dyletswydd ar yr Awdurdod Lleol i gynnal asesiad anghenion. Gwnaed yr asesiad anghenion a mynegodd Ms T ddymuniad i geisio parhau i reoli ei hanghenion ei hun, gan ei bod yn teimlo mai dyma'r ffordd orau iddi hi ymdopi â'i iechyd meddwl yn y tymor hirach. Darparodd yr Awdurdod Lleol wybodaeth a chyngor ar wasanaethau cymorth a sut i gael gafaél ar y rhain. Cafodd y canlyniadau eu bwydo yn ôl i'r seiciatrydd a fydd yn parhau i fonitro iechyd meddwl Mr T.

### **Enghraifft 4**

Mae Mr M yn ei 70au, yn byw ar lawr uwch mewn fflat y cyngor, ac wedi celcio ers sawl blwyddyn: ei eiddo ei hun, eitemau a etifeddwyd o gartref y teulu, a deunyddiau yr oedd wedi eu casglu o sgipiau a safleoedd adeiladu rhag ofn y buasent yn ddefnyddiol . Roedd y deunydd wedi'i bentyrru o'r llawr i'r nenfwd ym mhob ystafell, ac roedd Mr M yn byw mewn twnnel a dyllwyd drwy'r canol, heb unrhyw olau na gwres, ar wahân i stôf nwy. Yn olaf, ar ôl blynyddoedd o guddio mewn preifatrwydd, sylweddolodd Mr M y byddai gwaith a oedd yn cael ei wneud ar yr adeilad yn arwain at ddatgelu ei amodau byw. Dywedodd Mr M ei hun pa mor anodd y bu iddo wahodd mynediad i'w gartref, gymaint o gywilydd ac ofn oedd ganddo, a pha mor bwysig oedd yr hyn roedd wedi ei gelcio iddo, ar ôl dysgu fel plentyn y rhyfel i beidio â gwastraffu unrhyw beth.

Trwy gydweithio'n agos, mae Mr M, ei weithiwr cymorth a chontractwyr profiadol wedi gallu symud cyfaint mawr iawn o ddeunydd wedi'i gelcio yn raddol o'i fflat a gwneud gwelliannau i'w amgylchedd cartref. Mae wedi cymryd amser ac amynedd, dewrder a ffydd, a pherthynas gref yn seiliedig ar ymddiriedaeth. Nid yw'r gweithiwr wedi beirniadu Mr M, ac mae wedi gweithio yn ei bwysau ef, gan gadarnhau ei gynnydd mewn modd cadarnhaol. Mae Mr M a'i weithiwr cymorth yn cydnabod ei hunan-barch isel, ac wedi cysylltu â'i feddyg a gwasanaethau iechyd meddwl. Mae'r gweithiwr wedi cydnabod yr angen i ddisodli'r hyn y mae Mr M yn rhoi'r gorau iddo, ac mae wedi annog gweithgareddau sy'n adlewyrchu ei ddiddordebau. Mr M wedi gwerthfawrogi gonestrwydd, caredigrwydd a sensitifrwydd y gweithiwr, ei allu i wrando, a'r parch a'r cytbwysedd yn eu perthynas.

# Ymyriadau cyfreithiol posibl

Asiantaeth	Pŵer a Gweithredu Cyfreithiol	Amgylchiadau lle mae angen ymyrraeth
lechyd yr Amgylchedd	<p><b>Pŵer mynediad / Gwarant (Deddf lechyd Cyhoeddus a.287)</b> Sicrhau mynediad ar gyfer arholiadau/ cyflawni gwaith angenrheidiol sy'n ofynnol o dan Ddeddf lechyd Cyhoeddus bresenoldeb yr Heddlu sydd angen ar gyfer mynediad gorfodol</p>	<p>Diffyg ymgysylltu gan y person. I gael mynediad ar gyfer archwilio/ cyflawni gwaith angenrheidiol (Pob daliadaeth gan gynnwys Prydleswyr/ Rhydd-ddeiliaid)</p>
lechyd yr Amgylchedd	<p><b>Pŵer mynediad / Gwarant (a.240 Deddf lechyd y Cyhoedd s.239)</b> Swyddog lechyd yr Amgylchedd i wneud cais i Ynad. Bydd angen rheswm da i orfodi mynediad (casglu tystiolaeth gan bob parti). Angen presenoldeb yr Heddlu</p>	<p>Diffyg ymgysylltiad gan y person / gwrthodwyd mynediad o'r blaen. Arolygu ac archwilio (Pob daliadaeth gan gynnwys Les-ddeiliaid/Rhydd-ddeiliaid)</p>
lechyd yr Amgylchedd	<p><b>Rhybudd Gorfodi (adran 83 PHA 1936)</b> Hysbysiad yn gofyn i'r person â'i dderbyniodd i gydymffurfio. Gallai methu â gwneud hyn arwain at i'r cyngor gyflawni'r gofynion, ar ei gost ei hun; er y gall adennill treuliau a wariwyd yn rhesymol</p>	<p>Cyflwr budr neu afiach yr eiddo (eitemau sydd angen eu glanhau neu eu dinistrio) Atal anaf neu berygl i berson a wasanaethir. (Pob daliadaeth gan gynnwys Les-ddeiliaid / Rhydd-ddeiliaid / Eiddo gwag)</p>
lechyd yr Amgylchedd	<p><b>Rhybudd Clirio Sbwriel (Adran 92a Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990)</b> lechyd yr Amgylchedd i wneud asesiad i weld ai dyma'r opsiwn mwyaf addas.</p>	<p>Lle caiff tir sy'n agored i aer ei ddifetha gan sbwriel sy'n niweidiol i amwynder yr ardal. Un enghraifft fyddai lle mae celcio wedi ymestyn i mewn i ardal yr ardd.</p>
Yr Heddlu	<p><b>Pŵer Mynediad (A17 Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol)</b> Nid yw'r person y tu mewn i'r eiddo yn ymateb i gyswllt y tu allan ac mae tystiolaeth o berygl.</p>	<p>Gwybodaeth fod rhywun y tu mewn i'r adeilad yn sâl neu wedi'u hanafu a bod angen i'r Heddlu gael mynediad i achub bywyd neu ran o'r corff</p>

Tai	<p><b>Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddau a Phlisma 2014</b></p> <p>Gellir cael gwaharddeb sifil gan y Llys Sirol os yw'r llys yn fodlon bod y person y ceisir y waharddeb yn ei erbyn wedi cymryd rhan neu fygwth cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu os yw'r llys yn ystyried ei bod yn gyfiawn ac yn gyfleus i ganiatáu'r waharddeb at y diben o atal y person rhag cymryd rhan mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol.</p>	<p>Ymddygiad gan y tenant a allai achosi niwsans sy'n gysylltiedig â thai neu annifyrrwch i unrhyw un. Mae "Yn ymwneud â thai" yn golygu ymwneud yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol â swyddogaethau darparwr tai neu awdurdod lleol</p>
Asiantaethau Lles Anifeiliaid fel yr RSPCA/ Awdurdod Lleol ee Iechyd yr Amgylchedd / DEFRA	<p><b>Deddf Lles Anifeiliaid 2006 Troseddau (Hysbysiad Gwella)</b></p> <p>Addysgu'r perchennog yw'r cam cychwynnol a ffafir, cyhoeddi a monitro Rhybudd Gwella. Os na chydymffurfir, gall arwain at ddirwy neu garchar</p>	<p>Achosion o gam-drin / esgeuluso Anifail. Mae'r Ddeddf yn golygu ei bod nid yn unig yn anghyfreithlon i fod yn greulon tuag at anifail, ond bod rhaid i berson sicrhau bod anghenion lles yr anifeiliaid yn cael eu bodloni.</p> <p>Gweler hefyd:  <a href="http://www.defra.gov.uk/wildlife_pets/">http://www.defra.gov.uk/wildlife_pets/</a>.</p>
Gwasanaethau Iechyd Meddwl	<p><b>Deddf Iechyd Meddwl 1983 Adran 135(1)</b></p> <p>Mae'n darparu ar gyfer swyddog yr heddlu i fynd i mewn i eiddo preifat, os oes angen trwy rym, i chwilio am ac, os er heini, symud person i le diogel os bodlonir amodau penodol. Rhaid i'r heddwad fod yng nghwmni Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy (AMHP) a meddyg.</p> <p>DS. Y Man Diogel fel arfer yw'r uned iechyd meddwl, ond gall fod yn Adran Achosion Brys ysbyty cyffredinol, neu unrhyw le sy'n barod i weithredu fel hynny.</p>	<p>Rhaid i'r AMHP gyflwyno'r dystiolaeth gerbron ynad bod achos rhesymol dros gredu bod person yn dioddef o anhwylder meddyliol, ac yn cael ei</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cam-drin, neu</li> <li>• Esgeuluso, neu</li> <li>• Nad ydynt yn cael eu cadw o dan reolaeth briodol, neu</li> <li>• Os ydynt yn byw eu hunain ac yn methu gofalu am eu hunain, a bod y camau gweithredu yn ymateb cymesur â'r peryglon dan sylw.</li> </ul>